# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 16/03/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Cymorth Busnes

**C11 David Melding:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol cymorth busnes yng Nghymru? OAQ(3)2727(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae'n rhaid i'n hagwedd tuag at gymorth busnes yng Nghymru fod yn hyblyg fel y gallwn ymdopi â sefyllfa economaidd gyfnewidiol a'r sefyllfa economaidd yn y dyfodol. Byddwn yn mynd ati i wneud adolygiad sylfaenol o raglen adnewyddu'r economi, gyda chyfraniad pwysig gan y rhanddeiliaid, fel y gallwn nodi'r polisïau busnes a'r polisïau ehangach sydd fwyaf effeithiol i gefnogi datblygu economaidd.

### Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**C12 Nerys Evans:** Pa drafodaethau diweddar mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig? OAQ(3)2741(FM) W

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn cwrdd gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU yn rheolaidd i drafod amryw o faterion.

### Mentergarwch

**C13 Nick Ramsay:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei bolisïau ar gyfer datgloi potensial mentergarwch yng Nghymru? OAQ(3)2749(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae annog ac ysgogi mentergarwch yng Nghymru yn hanfodol os ydym am wella ffyniant a lles pobl Cymru yn yr hirdymor. Yr ydym yn gwbl gefnogol i ddatgloi potensial mentergarwch ac agwedd sy'n credu bod 'unrhyw beth yn bosibl', yn enwedig gyda phobl ifanc.

### Cefnogaeth Addysgol

**C14 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth addysgol ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau dysgu? OAQ(3)2728(FM)

**Y Prif Weinidog**: Cyfanswm y gwariant a gyllidebwyd ar gyfer darpariaeth anghenion addysgol arbennig gan awdurdodau lleol yn 2009-10 yw £335 miliwn. Mae oddeutu £28 miliwn eisoes wedi ei glustnodi ar gyfer darpariaeth sy'n gysylltiedig ag addysg bellach. Yn ogystal, mae cyfanswm grantiau ategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer eleni yn fwy na £6 miliwn.

### Amddifadedd Gwledig

**C15 Darren Millar:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amddifadedd gwledig yng Nghymru? OAQ(3)2742(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod amddifadedd yn bodoli mewn ardaloedd gwledig. Mae mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd yn ganolog i'n nodau ehangach o wella ansawdd bywyd a rhoi mwy o gyfle i bob un o gymunedau Cymru.